

CEIDWADAETH: GWEITHGAREDDAU

Cwestiynau byr (A01, A02)

Ceisiwch lunio atebion byr ar gyfer y cwestiynau isod:

Eglurwch pam fod ceidwadwyr yn rhoi pwyslais ar draddodiad?

Pam fod ceidwadwyr traddodiadol wedi bod yn amheus o egwyddorion cyffredinol, megis rhyddid neu gydraddoldeb, wrth ystyried sut dylid trefnu cymdeithas.

Pam fod awdurdod yn thema bwysig i geidwadwyr?

Pam fod ceidwadwyr yn dadlau y dylid edrych ar gymdeithas fel endid organig?

Eglurwch y prif wahaniaethau rhwng sut y creda ceidwadwyr traddodiadol a neo-ryddfrydwyr y Dde Newydd y dylai'r wladwriaeth ddelio â'r economi?

Pa fath o ddadleuon gwahanol sydd gan y ceidwadwyr i amddiffyn y syniad o eiddo preifat?

Wrth baratoi eich atebion meddyliwch yn ofalus ynglŷn â'r pwyntiau canlynol:

Gwybodaeth: Er mwyn dangos bod gennych wybodaeth eang a manwl meddyliwch yn ofalus am y gwahanol fathau o gysyniadau, egwyddorion a meddyliwyr sydd angen eu trafod er mwyn ateb y cwestiwn yn llawn.

Eglurder: Er mwyn sicrhau eich bod yn cyflwyno eich gwybodaeth mewn modd clir, meddyliwch yn ofalus sut i strwythuro eich ateb. Meddyliwch ym mha drefn y dylid gosod eich pwyntiau er mwyn sicrhau bod eich ateb yn llifo'n esmwyth.

Perthnasedd: Er mwyn sicrhau bod eich ateb yn trafod pwyntiau perthnasol sicrhewch eich bod yn deall beth yn union mae'r cwestiwn yn gofyn i chi ei wneud ac yna sicrhewch eich bod ond yn cynnwys deunydd perthnasol i'r cwestiwn yn eich ateb.